


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

POLISI TWYLL A LLYGREDIGAETH

Dyddiad Cymeradwyo: 11/02/14
Cymeradwywyd gan: Aelodau'r Comisiwn
Dyddiad Adolygu: 10/02/17

Diben

Gweithredu fel canllaw ar gyfer Aelodau, staff ac ymchwilyr y Comisiwn mewn achos posibl o dwyll neu anghyfreithlondeb arall.

Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ('y Comisiwn') yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff gadw bob amser at God y Gwasanaeth Sifil a Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth ynghyd â bod yn ddiuedd. Dyma sylfaen popeth a wnawn o ddydd i ddydd a rhaid iddynt fod yn egwyddor sylfaenol yn ein hetheg gwaith. **Mae hyn yn rhoi dyletswydd arnom i roi gwybod am unrhyw ddrygioni.** Gallai methu â gwneud hynny ein gadael yn agored i'n cynnwys mewn unrhyw ddrygioni, o ran ymchwiliadau disgyblu neu droseddol. **Nid oes gan y Comisiwn unrhyw oddefgarwch o gwbl mewn perthynas â thwyll a llygredigaeth.**

Er mwyn atal twyll, mae arnom angen gwybodaeth sylfaenol o'r hyn yr ydyw, er mwyn i ni allu ei adnabod. Felly mae angen rhywfaint o wybodaeth sylfaenol sy'n gymesur â'ch rôl, eich cyfrifoldebau a'ch maes gwaith. Dylai'r Polisi hwn gynorthwyo â'r wybodaeth honno a gallai eich cynorthwyo i adnabod amheuaeth o'r fath neu eich atal rhag cymryd rhan mewn trosedd heb yn wybod neu fel arall.

Mae'r Awdurdod Twyll Cenedlaethol yn arwain brwydr y llywodraeth yn erbyn twyll o fewn y DU ac mae'n disgrifio twyll fel a ganlyn:

'Twyll yw defnyddio dichell (ymhoniad ffug) yn fwriadol (o bwrpas) i gael mantais anonest (neu achosi colled), sydd yn aml yn ariannol (ond nid bob amser), dros berson arall'.

Ceir sawl diffiniad o dwyll a ddefnyddir gan wahanol gyrff ac asiantaethau i esbonio beth yw twyll. Wrth ystyried troseddau twyllodrus, mae prif asiantaethau gorfodi'r gyfraith y DU yn edrych mewn gwirionedd ar amrywiaeth o droseddau o dan 'ymbarél twyll'. Byddant yn cynnwys:

- **Twyll** (Deddf Twyll 2006)
- **Cyfrifyddu anwir a dwyn** (Deddf Dwyn 1968).
- **Masnachu Twyllodrus** (Deddf Cwmnïau 2006)
- **Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth** (Deddf Llwgwrwobrwyo 2010).
- **Gwyngalchu arian** (Deddf Enillion Troseddau 2002).
- **Camddefnyddio cyfrifiaduron sy'n cynnwys unrhyw un o'r uchod** (Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990)
- **Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus** (Y Gyfraith Gyffredin).

Ceir esboniad ehangach o'r troseddau hyn yn **Atodiad A**.

Gellir cyflawni twyll mewn nifer o ffyrdd, ond yn syml, mae'n fwriad anonest i ennill neu achosi colled drwy:

- unrhyw ymhoniad ffug (gallai'r ymhoniad fod wedi'i awgrymu neu'n anwir neu'n gamarweiniol);
- unrhyw hepgoriad; a/neu

- gamddefnyddio swydd (gallai hyn ddigwydd pan fydd person mewn swydd lle disgwylir iddynt ddiogelu neu beidio â gweithredu yn erbyn buddiannau ariannol person arall; neu hepgoriad yn y fath amgylchiadau lle disgwylir y byddent wedi gweithredu mewn gwirionedd).

Mae Comisiwn yn ystyried dau brif gategori o dwyll:

- Twyll Mewnol – Sef twyll a gyflawnir gan berson sy'n gweithio i'r Comisiwn.
- Twyll Allanol – Sef twyll a gyflawnir gan barti neu bartïon allanol, i gymryd asedau neu arian oddi wrth y Comisiwn.

Cyfrifoldebau

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am:

- gynnal ymchwiliadau grymus a phrydlon os oes amheuaeth o dwyll;
- cymryd camau cyfreithiol a/neu ddisgyblu priodol yn erbyn y sawl sy'n cyflawni twyll;
- cymryd camau disgyblu yn erbyn rheolwyr lle mae methiannau goruchwyllo wedi cyfrannu at gyflawni trosedd; a
- rhoi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer creu diwylliant sy'n cyfyngu ar y cyfle i dwyllo.

Mae rheolwyr yn gyfrifol am:

- nodi'r risgiau y mae systemau a gweithdrefnau yn agored iddynt;
- datblygu a chynnal rheolaethau effeithiol (megis rheolaethau caffael a chyllid) i atal a chanfod twyll;
- sicrhau cydymffurfiaid â rheolaethau; ac
- adrodd ar unrhyw dwyll neu afreoleidd-dra posibl neu a amheuir ar unwaith.

Cyfrifoldeb rheolwyr yn y lle cyntaf yw atal a chanfod twyll.

Mae staff yn gyfrifol am:

- ymgysgu â, a chydymffurfio â pholisïau, cyfarwyddiadau desg a systemau rheolaeth fewnol y Comisiwn;
- gweithredu'n briodol wrth gyflawni dyletswyddau, diogelu arian cyhoeddus ac amddiffyn asedau;
- arddel anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth yn eu hymddygiad;
- adrodd ar unrhyw dwyll neu afreoleidd-dra posibl neu a amheuir ar unwaith; a
- chydweithredu'n llawn gyda phwy bynnag sy'n cynnal gwiriadau mewnol, adolygiadau neu ymchwiliadau i dwyll.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gyfrifol am:

- fonitro cynnydd a deilliant ymchwiliadau i dwyll;
- ystyried adroddiadau blynyddol ar dwyll gan y Comisiwn; a
- cheisio sicrhau ynghylch cadernid Polisi a gweithdrefnau Twyll y Comisiwn.

Archwiliad Mewnol:

Nid prif rôl archwiliad mewnol yw canfod twyll; ac nid oes gan archwiliad mewnol unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol dros dwyll; ond mae'n ofynnol iddo roi sicrwydd annibynnol ynghylch effeithiolrwydd y prosesau a roddwyd ar waith i reoli'r risg o dwyll. Mae'r rolau y dylai archwiliad mewnol ymgymryd â nhw'n cynnwys y canlynol:

- Darparu barn ac argymhelliad i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch digonolrwydd y trefniadau ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, gan gynnwys y rhai ar gyfer rheoli'r risg o dwyll a llygredigaeth.
- Cynorthwyo gydag atal a rhwystro twyll drwy archwilio a gwerthuso effeithiolrwydd rheolaeth sy'n gymesur â pha mor agored neu mewn perygl posibl y mae'r adran honno o'r Comisiwn.
- Yn ystod archwiliad, sicrhau bod rheolwyr wedi adolygu pa mor agored ydynt i risgiau twyll a llygredigaeth a chofnodi'r camau a gymerwyd i leihau'r rhain.
- Ystyried y potensial ar gyfer twyll mewn archwiliad, (yn enwedig mewn caffael, rheoli grantiau ac ati) a nodi unrhyw arwyddion y gallai twyll fod wedi'i gyflawni neu wendidau rheolaeth a allai ddangos perygl o dwyll.
- Adrodd ar unwaith i Gadeirydd y Comisiwn neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ynghylch unrhyw afreoleidd-dra sy'n arwain at amheuaeth o dwyll neu lygredd.
- Ar gais y Comisiwn, cwblhau archwiliad ariannol neu archwiliad arall mewn maes penodol lle mae amheuaeth o afreoleidd-dra neu dwyll ariannol.

Adrodd ar Amheuaeth o Dwyll

Mae gan bawb ohonom ddyletswydd i adrodd. Nid yw atal gwybodaeth yn opsiwn lle mae gennym amheuaeth resymol o dwyll neu lygredigaeth. Lle mae amheuaeth o dwyll, dylid rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr ar unwaith. Pe byddai unigolyn yn teimlo na allai adrodd i'r Prif Weithredwr, mae ganddo hawl mynediad a gallai adrodd i Gadeirydd y Comisiwn, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, unrhyw Aelod o'r Comisiwn neu Aelod Annibynnol Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn. Fel arall, gallech ei chyfeirio drwy bolisi chwythu'r chwiban y Comisiwn (gyda'r diogelwch a ddarperir yn Neddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) a fydd yn sicrhau cyfrinachedd cyn belled ag y bydd y gyfraith yn ei ganiatáu. Hefyd, mae opsiwn i adrodd trwy eich cynrychiolydd Undeb Llafur. Pa opsiwn bynnag y byddwch yn ei ddewis, dylech osgoi oedi cyn adrodd.

Bydd y sawl sy'n cael gwybod am y twyll a amheuir yn ymgynghori â phartïon eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol, i ystyried yr honiad a chytuno ar y camau cychwynnol priodol ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar yr adeg honno.

Ymchwiliad

Y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Comisiwn, fydd yn gyfrifol am gytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer yr ymchwiliad a fydd yn cael ei gynnal, a nodi a phenodi swyddogion ymchwilio. Mater i'r ymchwiliwr, ar y cyd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd y Comisiwn, yw penderfynu ar y cwrs y dylai'r ymchwiliad ei gymryd. Pan fydd rôl y Prif Weithredwr neu Aelod yn destun ymchwiliad yn ei hun, bydd y weithdrefn briodol yn cael ei chytuno gan Gadeirydd y Comisiwn a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio (ar yr amod nad ydynt yn destun yr ymchwiliad).

Bydd angen asesu pob achos yn ôl ei rinweddau gan y gallai ymchwiliad troseddol a gweithdrefn ddisgyblu orgyffwrdd a rhwystro'i gilydd ar adegau. Dylid cael cydbwysedd rhwng y ddwy weithdrefn i osgoi rhwystro ymchwiliad troseddol neu i osgoi amharu ar ddyletswydd y Comisiwn i ofalu am ei weithwyr drwy ohirio gweithdrefnau'n ddiangen.

Er nad yw'n ofynnol i'r Comisiwn gyfeirio pob honiad troseddol at yr heddlu, fel arfer dyma fydd y cam a gymerir os oes amheuaeth o dwyll oni bai bod yr amgylchiadau'n golygu bod hyn yn annheilwng ym marn y Comisiwn. Hefyd, nid yw'r heddlu mewn sefyllfa i dderbyn pob honiad o dwyll. Mae gan y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Comisiwn y profiad angenrheidiol i asesu'n gywir pryd ac os dylai achos gael ei gyfeirio at yr heddlu neu ei drin fel mater disgyblu mewnol.

Nid yw cyfeirio achos at yr heddlu'n golygu y bydd erlyniad troseddol. Bydd hyn yn dibynnu ar bwys a safon y dystiolaeth y mae'r heddlu'n ei chyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG). GEG sydd â'r gair olaf ynghylch dwyn cyhuddiad neu beidio. Bydd GEG yn cynrychioli'r erlyniad a holl dystion yr erlyniad.

Wrth gymryd camau, dylai'r swyddog ymchwilio roi sylw i:

- weithdrefnau disgyblu'r Comisiwn;
- hawliau unrhyw unigolion dan sylw; ac
- yr angen i gael a chadw tystiolaeth.

Caiff cofnod o'r ymchwiliad ei gadw naill ai ar ffurf copi caled neu'n electronig neu'r ddau gyda mynediad cyfyngedig. Pan fydd yr ymchwiliad wedi dod i gasgliad, dylai'r ymchwiliwr lunio adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn y fformat canlynol:

- **Cyflwyniad** – Yr hyn a arweiniodd at yr ymchwiliad ac unrhyw fanylion a allai gynorthwyo dealltwriaeth.
- **Cyfyngiadau** – paramedrau'r ymchwiliad, beth fydd ac na fydd yn cael ei ystyried a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau hynny.
- **Canfyddiadau ac Argymhellion Ymchwiliol** – Dylai hyn ddatgan y prif ganfyddiadau a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad a'r camau gweithredu a argymhellir.
- **Casgliad** – Adroddiad cryno o'r hyn a gyflawnwyd a throsolwg o'r sefyllfa.

Mae adennill asedau'n amcan sylweddol mewn unrhyw ymchwiliad ac mae nifer o opsiynau wrth geisio cyflawni hyn. Caiff yr opsiynau hyn eu hystyried yn fwy manwl yn **Atodiad B**.

MATHAU O DWYLL**Cyfrifyddu Anwir:**

Unrhyw berson sydd, yn anonest, gyda'r bwriad o ennill neu achosi colled iddynt hwy eu hunain neu berson arall, yn dinistrio, difwyno, celu neu ffugio unrhyw gofnod at ddibenion cyfrifyddu neu sydd, wrth roi gwybodaeth o'r fath yn gwneud defnydd o unrhyw gofnod y maent yn gwybod y gallai fod yn gamarweiniol neu'n anwir.

Masnachu Twyllodrus:

Masnachu twyllodrus yw pan fydd cwmni'n cynnal busnes gyda'r bwriad o dwyllo credydwyd neu at unrhyw ddibenion twyllodrus. Mae hyn yn berthnasol p'un ai yw'r cwmni'n masnachu, wedi rhoi'r gorau i fasnachu, neu yn y broses o gael ei ddirwyn i ben.

Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth:

Mae **Deddf Llwgwrwobrwyo 2010** yn symleiddio'r gyfraith a oedd yn bodoli ynghylch llwgwrwobrwyo a llygredigaeth. Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Gorffennaf 2011. Crëwyd y troseddau canlynol gan y Ddeddf:

- Adran 1 - Llwgwrwobraeth Weithredol. Sef cynnig, addo neu roi llwgwrwobr i berson arall, cwmni neu gorff cyhoeddus.
- Adran 2 - Llwgwrwobraeth Oddefol. Ceisio, derbyn neu gytuno i dderbyn mantais neu wobwr ariannol neu arall am berfformio swyddogaeth berthnasol yn amhriodol.
- Adran 6 - Llwgwrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor: sef cyflawni llwgwrwobraeth weithredol ar swyddog cyhoeddus tramor, er mwyn cael neu gadw mantais fusnes.
- Adran 7 – Trosedd gorfforaethol o ganiatáu i llwgwrwobraeth ddigwydd. Mae sefydliad masnachol perthnasol yn euog o drosedd os yw person yn gysylltiedig â'r sefydliad yn llwgwrwobrwyo (trosedd adran 1 neu 6 yn unig) person arall gyda'r bwriad o gael neu gadw mantais fusnes.
- Mae hefyd yn creu "atebolrwydd caeth" ar gyfer y drosedd gorfforaethol; sy'n golygu y gallech beidio â bod yn ymwybodol o un neu fwy o'r ffactorau a wnaeth y weithred neu'r hepgoriad yn droseddol. Nid oes rhaid profi'r meddwl euog er dihidrwydd ond mae'n bosibl y bydd angen gwybodaeth i brofi elfen o'r drosedd.

Mae derbyn neu gymryd llwgwrwobr yn amlwg yn anghyfreithlon, ond mae'r drosedd gorfforaethol newydd (A. 7) yn creu amddiffyniad llawn os oes gennych ragofalon digonol ar waith i atal llwgwrwobrwyo a llygredigaeth, gyda phwyslais arbennig ar gyfarwyddwyr, rheolwyr a goruchwylwyr. Mewn geiriau eraill, byddai gwneud dim yn eich gadael yn agored i niwed os cyflawnir trosedd adran 1 neu 6 gan gyflogai neu berson cysylltiedig.

O dan Adran 9 y Ddeddf, roedd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ynghylch yr hyn sy'n arfer busnes derbyniol a lletygarwch corfforaethol. Gwnaethpwyd hyn ac mae'r canllawiau ar gael yn:

<http://www.justice.gov.uk/guidance/making-and-reviewing-the-law/bribery.htm>

Mae gan y Comisiwn fesurau ar waith i ddangos bod rhagofalon digonol yn eu lle a byddant yn parhau i ddatblygu ymhellach wrth i amgylchiadau newid. Mae'r ddeddf ar hyn o bryd yn rhestru gweithdrefnau digonol fel a ganlyn:

- Cymesuredd
- Ymrwymiad ar y lefel uchaf
- Asesu risg
- Diwydrwydd dyladwy
- Cyfathrebu
- Monitro ac adolygu.

Mae'r canllawiau'n esbonio'r chwe egwyddor hyn ynghyd ag enghreifftiau i helpu deall y ddeddfwriaeth. Mae'r Comisiwn eisoes wedi ymrwymo i beidio â goddef twyll a llygredigaeth ac mae ymrwymiad ar y lefel uchaf o'r Prif Weithredwr i lawr. Yn ogystal, bu'n ofynnol i'r Comisiwn i fod ag Asesiadau Risg Twyll a Llygredigaeth yn eu lle o 1 Gorffennaf 2011. Mae angen monitro ac adolygu rhain yn rheolaidd fel y gellir eu hasesu'n gorfforaethol i nodi'r meysydd blaenoriaethol. Mae'r risgiau'n eiddo i'r maes busnes ac mae angen gweithredu i reoli, lleihau neu ostwng y risg. Mae'r rhan fwyaf o adrannau'n cyflwyno'r Asesiad Risg Twyll a Llygredigaeth diwygiedig pan fo newid neu risg newydd yn cael ei nodi.

Mae angen i ddiwydrwydd dyladwy fod yn gymesur â'r risg ond mae'n hanfodol mewn rhai o'r meysydd risg uwch yn y sefydliad megis grantiau, caffael a sefydliadau trydydd parti. Rheolwyr sydd â'r prif gyfrifoldeb o gyfathrebu ynghylch risg ac ymwybyddiaeth o dwyll a llygredigaeth i'w staff.

Mae erlyniadau o dan Ddeddf Llwgrwobrwy 2010 yn gallu digwydd dim ond drwy ganiatâd y Swyddfa Twyll Difrifol (STD) neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (CEC). Byddai hyn yn tueddu i awgrymu mai dim ond y troseddau mwy difrifol fydd yn cael eu herlyn gan fod y STD yn bennaf ond yn derbyn achosion sy'n werth mwy na £1 miliwn. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth flaenorol lle mae angen awdurdodiad y CEC wedi'i drosglwyddo yn y gorffennol i Benaethiaid Rhanbarthol lleol Gwasanaeth Erlyn y Goron i awdurdodi ar ran y CEC. Os bydd hyn yn dilyn yr un llwybr, mae'n debygol y bydd heddluoedd lleol hefyd ystyried erlyn Llwgrwobrwyiaeth.

Gwyngalchu Arian:

Mae troseddau gwyngalchu arian yn dod o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 sydd o bosibl yn un o'r darnau mwyaf pwerus o ddeddfwriaeth ar y llyfrau statud.

Er mwyn hwyluso dealltwriaeth, mae'r adran hon yn cyfeirio at y tair trosedd o wyngalchu arian o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 yn unig. Mae nifer o resymau am hyn; mae pob un o'r tair trosedd gwyngalchu arian ag uchafswm dedfryd o 14 mlynedd ac mae gan yr heddlu bwerau ychwanegol sy'n cynnwys amrywiaeth o orchmynion ariannol.

Y Tair Trosedd Gwyngalchu Arian:

- Adran 327 Cuddio: Cuddio, celu, trosi, trosglwyddo neu gael gwared ar eiddo troseddol;
- Adran 328 Trefnu: Bod yn rhan o drefniant lle mae rhywun yn fwriadol neu'n amau hwyluso caffael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol gan neu ar ran person arall; ac
- Adran 329 Meddiant: Caffael, defnyddio neu feddu ar eiddo troseddol.

Er mwyn symleiddio'r tair trosedd, mae **Gwyngalchu Arian** yn cynnwys unrhyw drafodiad sy'n ceisio cuddio neu gelu elw o unrhyw weithgarwch anghyfreithlon.

Mae gwyngalchu arian yn cynnwys tri cham fel a ganlyn:

1. Lleoli > sef symud y cyllid o gysylltiad uniongyrchol â'r drosedd.
2. Haenu > sef celu'r llwybr i rwystro mynd ar ei drywydd.
3. Integreiddio > sef gwneud arian ar gael unwaith eto i'r troseddwr gyda'i wreiddiau galwedigaethol a daearyddol wedi'u cuddio o'r golwg.

Er y defnyddir y term gwyngalchu arian yn gyffredinol wrth ddisgrifio gweithgareddau troseddwr cyfundrefnol – a chyflwynwyd y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau yn gyntaf ac yn bennaf ar gyfer y rhain – i'r rhan fwyaf o bobl sy'n debygol o ddod ar ei draws neu o gael eu heffeithio gan hyn, mae'n golygu amheuaeth bod rhywun y maent yn eu hadnabod, neu'n gwybod amdanynt, yn elwa'n ariannol o weithgareddau anonest.

Caiff 'eiddo troseddol' ei ddiffinio'n eang iawn yn y gyfraith yn ymwneud â gwyngalchu arian. Mae'n cynnwys enillion nid yn unig o droseddau a gyflawnir gan berson arall, ond hefyd meddu ar elw o droseddau'r unigolyn ei hun – er enghraifft, cadw arian ar ôl peidio â thalu treth incwm. Nid oes unrhyw wahaniaeth pa mor fach yw'r swm o arian dan sylw. Mae hefyd yn cynnwys elw o droseddau sy'n digwydd dramor.

Hefyd mae dwy drosedd 'trydydd parti' – sef methiant i ddatgelu un o'r tair prif drosedd, a 'rhybuddio'. Mae rhybuddio'n golygu hysbysu person neu bobl sydd, neu yr amheuir eu bod, yn ymwneud â gwyngalchu arian, mewn modd sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu hymchwilio, neu beryglu ymchwiliad.

Gall yr holl droseddau gwyngalchu arian gael eu cyflawni gan sefydliad neu gan unigolion sy'n gweithio iddo.

Twyll Cyfrifiadurol:

Mae twyll cyfrifiadurol (mewnol ac allanol) yn golygu defnyddio systemau gwybodaeth a thechnoleg i drin rhaglenni neu ddata mewn modd anonest (er enghraifft, drwy newid, amnewid neu ddinistrio cofnodion, neu greu cofnodion ffug), neu lle mae'r defnydd o system TG yn ffactor perthnasol wrth gyflawni twyll. Mae dwyn neu ddefnydd twyllodrus o amser ac adnoddau cyfrifiadurol wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn. Mae pob trosedd sy'n ymwneud â thwyll cyfrifiadurol yn debygol o ddod o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.

ADENNILL ASEDAU: DEDDF ENILLION TROSEDDAU'R HEDDLU, SIFIL, GWIRFODDOL

Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer adennill asedau, mae angen ystyried y risg, y symiau, a'r materion moesol sy'n berthnasol. Mae angen ystyried yn ofalus pa un yw'r opsiwn cywir yn yr amgylchiadau. O bryd i'w gilydd bydd mynd ar drywydd erlyniad troseddol yn foesol gywir, p'un ai yw'r achos yn cael ei erlyn yn llwyddiannus ai peidio.

Nid yw ceisio adferiad sifil yn gyntaf pan amheuir twyll yn annilysu ymchwiliad troseddol o dan y gyfraith, ond mae'n anochel y bydd yn gwneud yr heddlu'n amharod i ddilyn ymchwiliad neu, os yw'r drosedd yn sylweddol, i ystyried y rhesymau dros oedi mewn ymchwiliad. Po hiraf y byddwch yn gadael adrodd ar dwyll a amheuir, po fwyaf y byddwch yn cynyddu'r siawns o erlyniad sy'n methu, oherwydd colli tystiolaeth, tystion yn symud ymlaen a cham-drin dadleuon proses. Os bydd yr achos troseddol yn methu, nid yw achos atafaeliad troseddol yn opsiwn oherwydd mai dim ond ar ôl collfarn y gellir gwneud hynny.

Felly, mae angen penderfynu'n gynnar ar y llwybr priodol i'w ddewis, gan ddeall y bydd amser a sefyllfa addas ar gyfer pob opsiwn.

Mae'r opsiynau fel a ganlyn:

- Y sawl a gyhuddir yn cytuno'n wirfoddol i ad-dalu'r swm;
- Yr ail opsiwn yw mynd ar drywydd y golled drwy'r broses sifil – bydd angen ystyried hyn gydag Ymgynghorydd Cyfreithiol y Comisiwn.
- Y trydydd opsiwn, a heb amheuaeth yr un mwyaf anodd, yw adfer drwy'r broses droseddol, sydd bob amser yn golygu cael collfarn yn y lle cyntaf. Bydd amgylchiadau a manylion yr hyn y ceir y person yn euog ohono'n cael effaith sylweddol ar y gallu i adennill asedau a pha asedau y gellir eu hadennill.
- lawndal neu fforffedu uniongyrchol, ar orchymyn gan y llys ar ôl collfarn, yw'r dull symlaf; ond yn aml methir clirio gorchmynion digolledu ac mae'n anodd plismona taliadau.
- Mae'r dull adfer a ffafrir yn golygu bod angen i'r heddlu gael cytundeb gan y llys collfarnu eu bod yn gallu agor ymchwiliad atafaelu o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

Ar ôl cytuno ar ymchwiliad atafaelu, gall yr heddlu fynd yn ôl chwe blynedd wrth edrych ar enillion anghyfreithlon y troseddwr. Bydd rhaid i'r troseddwr brofi, yn ei hanfod, bod popeth a enillwyd ganddynt yn ystod y cyfnod hwnnw wedi'i ennill yn gyfreithiol a chyfreithlon, neu gall yr erlyniad ddod i'r casgliad ei fod wedi'i gael yn anghyfreithlon. I'r heddlu, nid yw'r baich profi ar sail droseddol, hynny yw bod yn rhaid iddynt brofi y tu hwnt i bob amheuaeth resymol, ond ar sail baich profi sifil, hynny yw yn ôl pwysau tebygolrwydd. Mae hwn yn faich profi llawer is.

Yn ei hanfod, mae'r Ddeddf Enillion Troseddol yn caniatáu'r erlyniad, a 'rhagdybiaethau' bod holl enillion unigolyn yn enillion anghyfreithlon ac yn destun atafaelu oni bai y gall yr unigolyn brofi ei fod wedi'u cael yn gyfreithlon.